

Cynllun Iaith Gymraeg 2006

Welsh Language Scheme 2006

1.0 Cyflwyniad

1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

1.1.1 Hwn yw ein cynllun.

1.1.2 Mae'n disgrifio sut, i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg sef, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

1.1.3 Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.1.4 Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoedd** yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

1.1.5 Ceir rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk);

1.1.6 Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf - ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 23 Ebrill 1997 a fersiwn diwygiedig yw hwn a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 11 Medi 2006.

1.0 Introduction

1.1 Under the Welsh Language Act 1993 every public body providing services to the public in Wales has to prepare a scheme setting out how it will provide those services in Welsh.

1.1.1 This is our scheme.

1.1.2 It describes how we will give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle established by the Welsh Language Act that, in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, the Welsh and English languages should be treated on a basis of equality.

1.1.3 The scheme covers the services that we provide to the public in Wales.

1.1.4 In this scheme, the term **public** means individuals, legal persons and corporate bodies. It includes the public as a whole, or a section of the public, as well as individual members of the public. The term includes voluntary organisations and charities. Directors and others representing limited companies are also within the meaning of the term 'public'. It does not, however, include persons who are acting in a capacity which is representative of the Crown, Government or the State. Consequently, persons who fulfil official functions of a public nature, even though they are legal persons, do not come within the meaning of the word public when they are fulfilling those official functions.

1.1.5 Further information about the scope and purpose of Welsh language schemes can be found in the Welsh Language Board's guidelines (www.Welsh-language-board.org.uk).

1.1.6 This scheme was prepared under Section 21 of the Act - and in accordance with guidelines issued by the Welsh Language Board under Section 9 of the Act. It came into effect on 23rd April 1997 and this is a revised version that received approval from The Welsh Language Board on 11 September 2006.

2.0 Cefndir i'r sefydliad

2.1 Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) Prydain Fawr a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n gyfrifol am reoleiddio fwy neu lai yr holl risgiau i iechyd a diogelwch sy'n deillio o weithgarwch gwaith ym Mhrydain Fawr.

2.1.1 Ein cenhadaeth yw diogelu iechyd a diogelwch pobl drwy sicrhau y rheolir risgiau yn y gweithle newidiol yn briodol.

2.1.2 Rydym yn edrych ar ôl iechyd a diogelwch mewn gosodiadau niwclear a mwyngloddiau, ffatrïoedd, ffermydd, ysbytai ac ysgolion, gosodiadau nwy ac olew ar y môr, diogelwch y grid nwy a symud nwyddau a sylweddau peryglus a llawer o agweddau eraill ar ddiogelwch gweithwyr a'r cyhoedd. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch am orfodaeth mewn swyddfeydd, siopau a rhannau eraill o'r sector gwasanaethau.

2.1.3 Ceir rhestr lawn o swyddfeydd HSE ar ein gwefan www.hse.gov.uk. Mae gan HSE swyddfeydd ledled Prydain Fawr, gyda'i bencadlys yn Bootle, Glannau Merswy a Llundain. Yng Nghymru, mae ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Wrecsam a Chaerfyrddin, yn cyflogi dros 100 o aelodau staff. Rhestrir eu cyfeiriadau ar ddiwedd y ddogfen hon.

3.0 Cynllunio a darparu gwasanaethau

3.1 Polisiau, deddfwriaeth a mentrau

3.1.1 Bydd ein polisiau, mentrau a gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddant, lle bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau beunyddiol.

3.1.2 Pan gyfrannwn at ddatblygiad neu ddarpariaeth polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, gwnawn hynny mewn modd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

3.2 Darparu gwasanaethau

3.2.1 Gan ddefnyddio ein swyddfeydd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau y bydd y cyhoedd yng Nghymru yn gallu cael gwasanaeth yn Gymraeg os dymunant gael hynny. Pan fydd HSE yn ymwybodol o'r cychwyn bod angen Gwasanaeth Iaith Gymraeg ar y cwsmer (pan fydd y cwsmer yn ysgrifennu/ffonio yn Gymraeg) darperir hyn.

2.0 Background to the organisation

2.1 Great Britain's Health and Safety Commission (HSC) and the Health and Safety Executive (HSE) are responsible for the regulation of almost all the risks to health and safety arising from work activity in Great Britain.

2.1.1 Our mission is to protect people's health and safety by ensuring risks in the changing workplace are properly controlled.

2.1.2 We look after health and safety in nuclear installations and mines, factories, farms, hospitals and schools, offshore gas and oil installations, the safety of the gas grid and the movement of dangerous goods and substances and many other aspects of the protection both of workers and the public. Local authorities are responsible to HSC for enforcement in offices, shops and other parts of the services sector.

2.1.3 A full list of HSE offices can be found on our website www.hse.gov.uk. HSE has offices throughout Great Britain, with its headquarters in Bootle, Merseyside and London. In Wales, our offices are in Cardiff, Wrexham and Carmarthen, employing over 100 staff. Their addresses are listed at the end of this document.

3.0 Service planning and delivery

3.1 Policies, legislation and initiatives

3.1.1 Our policies, initiatives and services will be consistent with this scheme. They will support the use of Welsh and will, whenever possible, help the public in Wales use Welsh as part of their day-to-day lives.

3.1.2 When we contribute to the development or delivery of policies, initiatives, services or new legislation led by other organisations, we will do so in a way which is consistent with this scheme.

3.2 Delivering services

3.2.1 Using our offices in Wales, we will ensure that the public in Wales will be able to receive a service in Welsh should they wish to do so. Whenever HSE is aware from the outset that the customer requires a Welsh Language Service (by the customer writing/telephoning in Welsh) this will be provided.

3.2.2 Efallai y bydd achlysuron pan fydd gan aelod o'r cyhoedd ymholiad arbenigol na all ond siaradwr di-Gymraeg ei ateb. Er enghraifft, mae gan HSE ystod eang o arolygwyr arbenigol a gyflogir mewn niferoedd bach. Yn aml maent yn gweithio y tu allan i Gymru ond fe'u defnyddir am fod angen eu harbenigedd ar HSE neu gwsmeriaid. Gallai hyn fod er mwyn rhoi help sydd ei angen ar frys mewn ymchwiliad i ddamwain.

3.2.3 Rhoddir manylion am sut y mae HSE yn bwriadu darparu'r gwasanaeth hwn ar y tudalennau canlynol.

3.3 Ein swyddogaethau rheoliadol - a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd parti

3.3.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn â thrydydd parti yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

3.3.2 Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau ar gontract, rhoi trwyddedau a chaniatadau eraill.

3.4 Safonau ansawdd

3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o'r un safon a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

4.0 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

Fel arfer, byddwn yn gwneud y canlynol:

4.1.1 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn rhoi ateb yn Gymraeg (os bydd angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un peth â'n targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Saesneg byddwn yn ateb yn Saesneg ond yn nodi hefyd ein bod yn barod i ohebu yn Gymraeg yn y dyfodol. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn ddwyieithog, byddwn yn cadarnhau eu dewis iaith ac yn ateb yn yr iaith honno.

4.1.2 Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan wyddom y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

3.2.2 There may be occasions when a member of the public has a specialist enquiry that can be answered only by a non-Welsh speaker. For example, HSE has a wide range of specialist inspectors employed in small numbers. Often they are based outside of Wales but will be called in because HSE or customers need their expertise. This could be to give urgently needed help in an accident investigation.

3.2.3 Details of how HSE intend to provide this service is given in the following pages.

3.3 Our regulatory functions – and services undertaken on our behalf by third parties

3.3.1 Any agreements or arrangements which we make with third parties will be consistent with the relevant parts of this scheme, when those agreements or arrangements relate to the provision of services to the public in Wales.

3.3.2 This will include services which are contracted out, granting licences and granting other permissions.

3.4 Standards of quality

3.4.1 Services provided in Welsh and English will be of equal quality and will be provided within the same timescale.

4.0 Dealing with the Welsh speaking public

4.1 Correspondence

Our normal practice will be as follows:

4.1.1 When someone writes to us in Welsh we will issue a reply in Welsh (if a reply is required). Our target time for replying will be the same as for replying to letters written in English. When someone writes to us in English we will reply in English but also indicate that we are prepared to correspond in Welsh on future occasions. When someone writes to us bilingually we will establish and reply in the preferred language.

4.1.2 When we initiate correspondence with an individual, group or organisation, we will do so in Welsh when we know that they would prefer to correspond in Welsh.

4.1.3 Byddwn yn datblygu system i gofnodi dewis iaith y rhai sydd am ohebu â ni yn Gymraeg. Gwneir hyn drwy ein cronfa ddata COIN. Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn fel arfer yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd.

4.1.4 Bydd unrhyw ddogfennau amgaaedig a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

4.1.5 Bydd unrhyw ddogfennau amgaaedig a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

4.1.6 Caiff yr holl ohebiaeth Gymraeg a anfonwn ar ffurf copi caled ei llofnodi yn yr un fformat ag y byddai'r ohebiaeth Saesneg yn cael ei llofnodi hy llythyrau unigol wedi eu llofnodi'n bersonol, llofnod wedi ei lungopio ar gyfer ymgyrchoedd drwy'r post.

4.1.7 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y bydd yn rhaid i'r Bwrdd gytuno arni, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau nad oes angen eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fydd yr ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

4.1.8 Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth papur.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

4.2.1 Fel arfer byddwn yn sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.

4.2.2 Bydd staff y switsfwrdd yn ateb gyda chyfarfarchiad dwyieithog.

4.2.3 Bydd ein prif switsfwrdd yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei ffôn ateb.

4.2.4 Byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn gyda chyfarfarchiad dwyieithog a defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu ffonau ateb personol.

4.2.5 Os bydd y person sy'n ffonio am siarad yn Gymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.

4.2.6 Os bydd person yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac am siarad yn Gymraeg, ond ni all y person sy'n derbyn yr alwad wneud hynny, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.

4.1.3 We will develop a system to record the language preference of those who wish to correspond with us in Welsh. This will be through our COIN database. If the Welsh and English versions of any correspondence have to be published separately, our normal practice will be to ensure that both versions are available at the same time.

4.1.4 Enclosures sent with bilingual letters will be bilingual, when available.

4.1.5 Enclosures sent with Welsh letters will be Welsh or bilingual, when available.

4.1.6 All hard-copy Welsh correspondence that we issue will be signed in the same format as English correspondence would be ie personally signed individual letters, photocopied signature for mailshots.

4.1.7 We will use a scoring system, to be agreed with the Board, to identify objectively any standard or circular correspondence which need not be published in Welsh, or bilingually (for instance, when the correspondence is very technical or lengthy).

4.1.8 The above will apply to e-mail correspondence as well as paper correspondence.

4.2 Telephone communications

4.2.1 Our normal practice is to ensure that the public can speak in Welsh or English when dealing with us by telephone.

4.2.2 Our switchboard staff will answer with a bilingual greeting.

4.2.3 Our main switchboard will use a bilingual message on its answer phone.

4.2.4 We will encourage the rest of our staff to answer the telephone with a bilingual greeting and use bilingual messages on their personal answer-phones.

4.2.5 If the caller wishes to speak Welsh, our switchboard will try to connect the call to a Welsh speaker qualified to deal with the enquiry.

4.2.6 If a caller rings one of our direct lines and wishes to speak Welsh, but the person taking the call cannot do so, they will try to transfer the call to a Welsh speaking colleague qualified to deal with the enquiry.

4.2.7 Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys ar gael i ddelio â'r ymholiad, bydd y person sy'n ffonio yn gallu dewis, fel y bo'n briodol, cael rhywun sy'n siarad Cymraeg i'w ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu e-bost.

4.2.8 Pan sefydlwn linellau cymorth dros y ffôn neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, byddwn yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn. Mae gan Linell Wybodaeth HSE gyfleuster yn Gymraeg.

4.2.9 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysrsiau dros y ffôn yn Gymraeg.

4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

4.3.1 Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni fyddwn wedi cadarnhau bod pob cyfranogwr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

4.3.2 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a naill ai'n nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw ym mha iaith y maent am siarad.

4.3.3 Byddwn yn hysbysu'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg ac yn darparu papurau a gwybodaeth arall wedyn ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg – ac yn trefnu i adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

4.3.4 Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, byddwn fel arfer yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynd iddynt, fel y bo angen.

4.3.5 Bydd yr uchod yn gymwys i bob digwyddiad lle y gwahoddir y cyhoedd, ee Diwrnodau Ymwbyddiaeth lle y bo'n ymarferol

4.2.7 If no Welsh speaker qualified to deal with the enquiry is available, the caller will be given the choice, as appropriate, of having a Welsh speaker phone back as soon as possible, continuing the call in English or submitting their query in Welsh, by letter or e-mail.

4.2.8 When we set up telephone help-lines, or similar facilities, to give information, services or support to the public, we will provide a Welsh language service. This will be advertised alongside the English language service. Both services will share the same telephone number. HSE Infoline has a Welsh Language facility.

4.2.9 Because of their location it would not be practicable for staff in our offices outside Wales to conduct telephone conversations in Welsh.

4.3 Public meetings

4.3.1 We will provide simultaneous translation from Welsh into English at our public meetings unless we have established that all participants are likely to use the same language.

4.3.2 Invitations and advertisements for public meetings will be bilingual and either note that translation facilities will be available or invite the public to let us know in advance in which language they wish to speak.

4.3.3 We will let those attending public meetings know when translation facilities are available – and encourage contributions in Welsh and then provide papers and other information for public meetings in Welsh and English – and for reports or papers produced following public meetings to be published in Welsh and English.

4.3.4 When selecting staff to attend public meetings, our normal practice will be to ensure that suitably qualified Welsh speakers attend, as necessary.

4.3.5 The above will apply to all events where we invite the public, eg Awareness Days where practicable.

4.4 Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

4.4.1 Pan drefnwn gyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd neu pan fynychwn gyfarfodydd o'r fath ee Ymchwiliadau, derbyn tystiolaeth, byddwn yn cadarnhau eu dewis iaith cyn gynted â phosibl hy drwy ymweliadau'r Swyddog Ymwybyddiaeth lechyd a Diogelwch a, lle y bo'n bosibl, yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sydd am siarad yn Gymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.

4.4.2 Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir gan ddefnyddio offer fideo-gynadledda ac offer tebyg.

4.4.3 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yn Gymraeg.

4.5 Cysylltiadau eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

4.5.1 Lle y bo'n ymarferol, a chan ddefnyddio'r system sgorio, bydd unrhyw **arddangosiadau clyweledol** neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown yn ddwyieithog.

5.0 Ein hwyneb cyhoeddus

5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

5.1.1 Fel arfer byddwn yn cynhyrchu'r deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, deunydd arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, gan ddefnyddio'r system sgorio. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch. Byddwn yn datblygu meini prawf y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno arnynt i'n helpu i benderfynu pa arddangosiadau sydd angen eu cael yn Gymraeg. Bydd gwybodaeth ar ein stondinau ar gael yn ddwyieithog os yw ar gael ac yn unol â'n system sgorio cyhoeddiadau.

5.1.2 Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos yr un pryd, a'r ddwy yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

4.4 Other meetings with the public in Wales

4.4.1 When we arrange or attend face-to-face meetings with the public eg Investigations, taking evidence, we will establish their language preference at the earliest opportunity ie through Health and Safety Awareness Officer visits and, whenever possible, ensure that a suitably qualified Welsh speaking member of staff deals with those whose preferred language is Welsh. If no suitably qualified Welsh speaker is available, we will offer the choice of continuing the meeting in English, or dealing with the subject by corresponding in Welsh.

4.4.2 The above will also apply to meetings held using videoconferencing and similar equipment.

4.4.3 Because of their location it would not be practicable for staff in our offices outside Wales to conduct face-to-face meetings with the public through the medium of Welsh.

4.5 Other dealings with the public in Wales

4.5.1 Where practicable, and using the scoring system, any **audio-visual displays** or interactive media that we prepare will be bilingual.

5.0 Our public face

5.1 Publicity campaigns, exhibitions and advertising

5.1.1 Our normal practice will be to produce using the scoring system, the publicity, public information, exhibition and advertising material we use in Wales bilingually, or as separate Welsh and English versions. If the Welsh and English versions have to be published separately, both versions will be equal with regard to size, prominence and quality – and both versions will be available simultaneously and will be equally accessible. We will develop criteria to be agreed with the Welsh Language Board to help us decide which exhibitions need to be in Welsh or not. Information on our stands will be available bilingually if available and in accordance with our publications scoring system.

5.1.2 Any advertisements placed in English language newspapers (or similar material) distributed mainly or wholly in Wales, will be bilingual, or will appear as separate Welsh and English versions (with both versions appearing simultaneously, and being equal with regard to size, prominence and quality).

5.1.3 Mewn cyhoeddiadau Cymraeg bydd hysbysebion yn Gymraeg yn unig.

5.1.4 Hysbysebion ar y teledu, yn y sinema ac ar y radio yn Gymraeg a Saesneg lle y bo'n briodol. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg a bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

5.1.5 Fel arfer byddwn yn osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg, neu drosleisio hysbysebion yn Gymraeg.

5.1.6 Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

5.1.7 Pan fyddwn yn trefnu aelodau o staff i weithio ar stondinau ac arddangosiadau, byddwn fel arfer yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys ar gael, fel y bo angen.

5.2 Cyhoeddiadau

5.2.1 Gan ddefnyddio'r system sgorio, ein nod fydd cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

5.2.2 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle y byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn yr un faint ac o'r un ansawdd – ac fel arfer byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a bod y ddwy yr un mor hygyrch. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd bod y deunydd ar gael yn y ddwy iaith drwy ein gwefan a'n swyddfeydd yng Nghymru.

5.2.3 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y bydd y Bwrdd yn cytuno arni, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd naill ai fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

5.2.4 Os na fydd ar gael am ddim, ni fydd pris ddogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith - a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

5.2.5 Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

5.1.3 In Welsh language publications advertisements will be in Welsh only.

5.1.4 Television, cinema and radio advertising will be conducted in Welsh and English where appropriate. Television campaigns which appear on S4C during Welsh programming hours will be in Welsh and radio campaigns broadcast during Welsh language programmes on commercial radio stations will be in Welsh.

5.1.5 Our normal practice will be to avoid using Welsh language subtitles, or dubbing adverts into Welsh.

5.1.6 Telephone response lines and other ways of responding to campaigns in Wales will be bilingual or will include a separate Welsh response service.

5.1.7 When staffing exhibitions stands and displays, our normal practice will be to ensure that suitably qualified Welsh speakers attend, as necessary.

5.2 Publications

5.2.1 Using the scoring system, our aim will be to publish material made available to the public bilingually, with the Welsh and English versions together in one document.

5.2.2 If the Welsh and English versions have to be published separately (for instance, where a single document would be too lengthy or bulky), both versions will be of equal size and quality – and our normal practice will be to ensure that both versions are available at the same time and are equally accessible. We will inform the public that the material is available in both languages through our website and offices in Wales.

5.2.3 We will use a scoring system, to be agreed with the Board, to identify objectively when material should be published either as separate Welsh and English versions or as bilingual documents.

5.2.4 If not available free of charge, the price of a bilingual document will not be greater than that of a single language publication - and the price of separate, Welsh and English versions will be the same.

5.2.5 The above will also apply to material made available electronically on our website, on CD Rom or otherwise.

5.3 Gwefannau

www.hse.gov.uk

5.3.1 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg.

5.3.2 Fel arfer byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.

5.3.3 Wrth gynllunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gynllunio gwefannau.

5.3.4 Pryd bynnag y byddwn yn rhoi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, caiff y fersiynau Cymraeg eu rhoi arnynt yr un pryd, os ydynt ar gael.

5.3.5 Byddwn yn paratoi rhaglen, y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno arni, yn nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan, dros gyfnod o amser.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

5.4.1 Lle y bo'n bosibl, byddwn yn cyhoeddi'r holl ffurflenni a'r deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.

